




Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU



**Business@**  
gwynedd.llyw.cymru



# Grant Gwella Sgiliau Gweithlu

## Nodiadau Arweiniol Cais



WEDI'I YRRU GAN  
**FFYNIANT  
— BRO —**



## Pwrpas y Grant

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i helpu busnesau i uwch-sgilio'u gweithwyr, trwy eu galluogi i ryddhau amser eu staff i hyfforddi, ac i oresgyn rhwystrau eraill. Mae yna grant o hyd at £3,000 y busnes (ar sail hyd at 100% o gostau) ar gael i alluogi i fusnesau hyfforddi gweithwyr sydd ar hyn o bryd wedi'i hyfforddi i lefel 1 a 2, rhai sydd mewn swyddi lefel mynediad, a rhai sydd mewn tloedi gwaith.

Beth sy'n gymwys?

Gallwch ddefnyddio'r grant yma i dalu am:

- Hyfforddiant
- Costau teithio
- Costau cyllido person arall i wneud gwaith yr aelod staff sy'n cael eu hyfforddi, tra mae nhw'n derbyn yr hyfforddiant
- Costau eraill ymghlwm a rhyddhau staff i fynychu hyfforddiant

Os yw eich cais yn llwyddiannus, er mwyn hawlio'r costau uchod, mi fydd angen dangos:

Hyfforddiant	Anfoneb gan y cwmni/sefydliad hyfforddi Datganiad banc chi yn dangos bod yr anfoneb wedi'i dalu Datganiad gan y cwmni hyfforddiant yn cadarnhau bod y gweithwyr sydd wedi'u henwi yn eich cais wedi derbyn yr hyfforddiant a/neu dystysgrif berthnasol
Costau Teithio	Derbyneb taci/ tocyn bws/ tocyn tren/ cyffelyb i bob taith Derbynnneb tanwydd car Fyddwn yn talu ar sail 45c y milltir ar gyfer teithiau car.
Costau cyllido person arall i wneud gwaith yr Aelod staff sy'n cael eu hyfforddi	Anfoneb y gweithiwr os yn llawrydd yn nodi'n glir y dyddiadau a weithwyd, dylid cydfynd a'r dyddiadau hyfforddiant Hyfforddiant o'ch system cyfrifo arferol i ddangos taliad i weithiwr achlysurol i gynnwys enw a rhif cyflog Hyfforddiant o'ch system cyfrifo arferol i ddangos taliad i weithiwr arferol yn ychwanegol i'w cyflog arferol i gynnwys enw a rhif cyflog Datganiad banc i ddangos taliad i'r unigolyn dan sylw Datganiad ysgrifenedig bod y costau yma wedi'i dalu dim ond i alluogi i un o'r gweithwyr sydd wedi'u henwi yn eich cais mynychu hyfforddiant Cysylltwch a ni cyn derbyn y cynnig grant os ydych am ddefnyddio math arall o weithiwr er mwyn trafod tystiolaeth perthnasol Nid ydi'n bosib adhawlio amser aelod arall o staff
Costau Eraill	Cysylltwch â ni cyn derbyn y cynnig grant i drafod y dystiolaeth fwyaf addas ar gyfer costau ychwanegol



---

## Gwybodaeth Ychwanegol

Trwy dderbyn grant, rhaid i'ch busnes ymrwymo i:

- dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol os yn cyflogi staff (dros 18 oed) erbyn Rhagfyr 2024 fan bellaf (nid yw'n ofynnol sicrhau achrediad y Sefydliad Cyflog Byw);
- gwblhau asesiad o'u defnydd o'r Gymraeg drwy law Comisiynydd y Gymraeg cyn derbyn taliad o'r Gronfa ac i gynyddu eu defnydd o'r iaith gan weithio tuag at dderbyn 'Cynnig Cymraeg' y Comisiynydd.

Mae'r prosiect yma yn cael ei fonitro o bersbectif yr unigolion sy'n derbyn hyfforddiant, ac felly rhaid i bob unigolyn byw yng Ngwynedd

Nodwch fod gan Cyngor Gwynedd disgrisiwn llwyr i gefnogi cais i'r Gronfa ac mae penderfyniadau'r Cyngor yn derfynol. Bydd penderfyniadau Cyngor Gwynedd yn amodol ar y budd rhagwelir ac yn llwyr ddibynnol ar argaeledd cyllid.

Rydym yn disgwyl galw mawr am y grant hwn ac yn anffodus, dim ond cyfran o'r ceisiadau a dderbyniwn fyddwn yn gallu eu cefnogi.

Prynu gydag arian parod - Ni allwch brynu gwasanaethau gydag arian parod

Os ydych yn talu am unrhyw beth gyda cherdyn credyd neu debyg, bydd angen i chi ddangos tystiolaeth eich bod wedi talu'r cwmni credyd yn ôl yn llawn.

Ôl-weithredu - Arhoswch tan eich bod wedi derbyn cynnig swyddogol o'r grant, ac wedyn ei ddychwelyd yn ôl i ni cyn prynu/ymgymryd â unrhyw wasanaethau / gweithgareddau sy'n rhan o'ch cais. Os ydych eisoes wedi ymrwymo i neu dalu am elfen(nau) o'r gwaith o fewn y cais, rydym yn fodlon ystyried cefnogi'r elfen(nau) yma, ar sail cyfnewid - hynny yw os ydych yn derbyn grant tuag at y gost dan sylw, fydd angen i chi wario'r arian sydd wedi'i arbed i chi i ddatblygu'ch busnes neu weithlu mewn ffordd arall

Gall y Cyngor dynnu cynnig grant yn ôl, neu adhawlio arian sydd eisoes wedi'i dalu allan:

-os nad ydych yn defnyddio'r gwasanaethau y byddwch yn eu prynu, i wneud yr hyn rydych wedi amlinellu yn eich ffurflen gais

-os byddwn yn canfod fod rhywbeth yn eich cais sy'n anghywir

-os oes oedi afresymol wrth i chi symud ymlaen i brynu'r gwasanaeth neu eu rhoi ar waith

Bydd y Cyngor angen sicrhau bod yr arian grant wedi'i ddefnyddio i dalu am yr offer a'r gwasanaethau cywir, a'u bod y cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n cyd-fynd â thelerau ac amodau'r grant, ac unrhyw amodau ychwanegol os yn berthnasol. Gall hwn gynnwys archwilio'r gwaith, ymweld â'ch busnes, neu unrhyw ffordd briodol arall. Unwaith y bydd y Cyngor yn fodlon bod y grant wedi'i wario'n briodol, bydd y Cyngor yn rhyddhau'r cyllid i gyfrif banc eich busnes drwy daliad BACS.

---



---

## Amodau Grant

1. Dylai bob busnes fod yn hyfyw yn ariannol.
  2. Dylai'r busnes gydymffurfio gyda'r holl reoliadau priodol, holl bolisiau gorfodaeth a safonau gwasanaeth sy'n berthnasol i'w sector busnes, gan gynnwys bod wedi cofrestru gyda'r Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC) at ddibenion talu treth.
  3. Mae'n rhaid i bob gwaith hyfforddiant gael ei wneud gan gontractwyr cymwys.
  4. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gysylltu ag unrhyw un o'r busnesau sy'n cyflwyno dyfynbrisiau mewn cyswllt â'ch cais os oes angen eglurder pellach.
  5. Ni fyddwch yn derbyn cyllid ar gyfer unrhyw ran o'r gwaith rydych chi neu'ch busnes wedi ei gyflawni eich hun (boed y busnes mewn perchnogaeth lawn neu'n rhannol).
  6. Mae'n rhaid hysbysu'r Cyngor o unrhyw gyswllt personol, teuluol neu fusnes rhyngoch chi/eich asiant ac unrhyw gyflenwr neu gontractwr.
  7. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi cael neu wedi cydymffurfio â phob caniatâd statudol perthnasol arall cyn i chi gyflwyno'ch cais. Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol o hyn. Rhaid i'ch busnes neu'r gwaith rydych yn cyflawni hefyd gydymffurfio ag unrhyw drwyddedau/caniatâd/gofynion perthnasol eraill e.e. Iechyd a Diogelwch
  8. Wrth roi grant i chi, nid yw'r Cyngor yn cymeradwyo unrhyw beth tu hwnt i brynu'r gwasanaeth(au) sydd yn y cais.
  9. Ni ellir talu arian am waith sydd wedi dechrau yn barod nac am unrhyw wasanaeth sydd wedi'i brynu yn barod
  10. Ni fydd y Cyngor yn roi grantiau i ymgeiswyr sydd â dyledion sylweddol i unrhyw adran o'r Cyngor.
  11. Gall y Cyngor wirio os oes Dyfarniad y Llys Sirol yn eich erbyn.
  12. Mae'n rhaid i fusnesau fasnachu am isafswm o 30 awr yr wythnos i fod yn gymwys.
  13. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i roi cyhoeddusrwydd o ddyfarnu'r grant.
  14. Dylai unrhyw gyhoeddusrwydd sy'n cael ei drefnu gennych sy'n ymwneud â derbyn y grant nodi cefnogaeth ariannol y cynllun Cyngor. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw ddeunyddiau marchnata/gwefannau. Caiff ganllawiau cyhoeddusrwydd llawn fel rhan o unrhyw cynnig swyddogol o nawdd.
  15. Unwaith y bydd y grant wedi cael ei gymeradwyo ni allwch gynnwys unrhyw eitemau ychwanegol yn yr hawliad oni bai fod hyn wedi'i gytuno gan y Cyngor.
  16. Os yw cyfanswm y gwariant yn llai na'r hyn oedd wedi'i ragweld, bydd y dyfarniad grant yn cael ei ostwng pro rata.
  17. Gellir hawlio'r TAW fel rhan o gyfanswm y grant os nad yw'r ymgeisydd wedi cofrestru at ddibenion TAW.
  18. Mae'n rhaid hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig os oes unrhyw newid i'r ffordd y byddwch yn defnyddio'r offer neu wasanaeth sydd wedi eu prynu gyda'r grant
  19. Mae Cyngor Gwynedd yn dal disgresiwn absoliwt o ran telerau, cymhwysedd a phenderfyniadau dyfarniadau grant a hefyd yn cadw'r hawl i ddiwygio'r meini prawf ar unrhyw adeg
-



## Canllawiau ar gyfer cwblhau'r Ffurflen Gais

### Adran 3 – Disgrifiad o'r Prosiect, Graddfa Amser ac Ariannu

Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno i dalu cyfraniad tuag at gost hyfforddiant o ddewis yr ymgeisydd i wella sgiliau gweithlu'r busnes neu gymhwyster perthnasol.

Mae'n benderfyniad y busnes faint o'r gweithlu fydd yn elwa o'r hyfforddiant/cymhwyster, ond uchafswm cyfraniad grant fydd £3,000.

Nid yw'r Cyngor yn talu TAW adferadwy os yw busnes wedi cofrestru at ddibenion TAW ond bydd yn talu TAW nad yw'n adferadwy os nad yw'r busnes wedi cofrestru ar gyfer dibenion TAW. Dylai'r dyfynbris gynnwys y TAW (adferadwy neu beidio), costau teithio a gorbenion a fyddant yn gostau cymwys i'w cynnwys yn y cais grant.

Gall yr ymgeisydd ad-hawlio'r grant gan y Cyngor er mwyn talu am yr hyfforddiant, ond bydd yn rhaid dangos tystiolaeth o wariant a thystiolaeth o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i dalu uchafswm grant o £3,000 a bydd disgwyl i'r busnes dalu gweddill y costau yn uniongyrchol i'r darparwr.

### Amserlen

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd a'r darparwr gytuno ar ddyddiadau cychwyn a gorffen. Rhaid cwblhau'r broses hawlio, gyda'r holl dystiolaeth erbyn Medi 30, 2024 (fan hwyraf).

### Adran 4 – Gwerth am Arian

Mae'r adran hon yn rhoi cyfle i chi egluro sut yr ydych yn gobeithio y bydd yr hyfforddiant / cymhwyster hyn yn helpu'ch busnes.

### Adran 5 - Manylion Cyflogaeth

Nodwch nifer y bobl sy'n gweithio i chi ar hyn o bryd ac unrhyw swyddi ychwanegol y gellir cael eu creu neu eu gwarchod o ganlyniad uniongyrchol i'ch cais am grant fod yn llwyddiannus ac i'r prosiect fynd yn ei flaen.

### Adran 6 – Yr Iaith Gymraeg

Mae disgwyliad ar Gyngor Gwynedd i gasglu gwybodaeth am broffil ieithyddol bob cwmni sy'n cael grant. Llenwch y tabl gyda'r wybodaeth ieithyddol gan ddewis yr opsiynau sydd fwyaf perthnasol i'ch busnes chi.

---



**Busnes@**  
gwynedd.llyw.cymru

